



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 228/2018

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2018

Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 169/2015

Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; pob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion; a sefydliadau â diddordeb.

Trosolwg

Prif nod y ddogfen ganllawiau hon yw rhoi cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ar y dulliau a argymhellir i hidlo'r we mewn lleoliadau addysgol.

Camau i'w cymryd

Rhaid i'r safonau hyn gael eu dwyn at sylw rheolwyr, staff a gweithwyr addysg proffesiynol sy'n gweithio mewn amgylchedd ysgol a gynhelir, a thimau awdurdodau lleol sy'n cefnogi darpariaeth hidlo'r we ar gyfer ysgolion.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned Dysgu Digidol

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 060 4400

e-bost: hw@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru (2015)

Cynnwys

Nod	2
Trosolwg o'r broses o adolygu'r safonau	2
Disgwyliadau	3
Gofynion ar gyfer offer Hwb	3
Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru: Adolygiad Chwefror 2018	4

Nod

Nod allweddol safonau hidlo'r we a amlinellir yn y ddogfen hon yw y byddant yn galluogi mynediad at wefannau sy'n helpu i ddarparu addysgu a dysgu effeithiol mewn ysgolion.

Bydd set gyffredin o safonau cytûn ar gyfer mynediad i'r rhyngwrwyd yn rhoi cyfle i ysgolion wneud dewisiadau gwybodus ynghylch darpariaeth rhyngwrwyd wedi'i hidlo, boed gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall.

Mae'n hollbwysig bod safonau hidlo'r we yn addas i'r diben ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain Ganrif, gan alluogi'r mynediad sy'n ofynnol gan ysgolion ond gan ddiogelu plant a phobl ifanc.

Bydd y safonau'n gyfle i ddysgwyr ddysgu mewn amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol ac yn atal mynediad at gynnwys amhriodol. Dylai rhaglen addysg diogelwch ar-lein effeithiol ategu'r canllawiau hyn i addysgu plant a phobl ifanc ynghylch pwysigrwydd ymddygiadau ar-lein cyfrifol ac ystyriol.

Trosolwg o'r broses o adolygu'r safonau

- Cafodd gweithgor ei sefydlu i adolygu'r ddogfen ganllawiau *Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru*, a gyhoeddwyd yn 2015. Roedd y gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o:
 - Lywodraeth Cymru
 - timau technegol awdurdodau lleol
 - ysgolion Arloesi Digidol
 - South West Grid for Learning
 - sefydliadau arbenigol annibynnol eraill.
- Datblygodd y gweithgor ddau arolwg; un ar gyfer awdurdodau lleol ac un ar gyfer ysgolion.

Cafodd yr arolwg awdurdodau lleol ei ddylunio'n benodol i bennu darpariaeth bresennol hidlo'r we ledled Cymru. Cafwyd ymateb gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:

- Ynghylch y safonau a argymhellwyd ar gyfer hidlo'r we yn 2015:
 - Roedd 96% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r safonau.
 - Dywedodd 56% o'r ymatebwyr fod y safonau wedi'u mabwysiadu'n llawn yn eu hawdurdod lleol.
 - Roedd 93% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y safonau wedi bod o fudd i'w hawdurdod lleol.
- Mae 52% o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn dirprwyo rhai o'u mesurau hidlo'r we i'w hysgolion.

Cafodd yr arolwg ysgolion ei ddylunio'n benodol i staff ysgol gael mynegi eu barn ar lwyddiant *Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru*. Cafwyd 323 o ymatebion gan staff ysgol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:

- Dywedodd 66% o'r ymatebwyr fod system hidlo'r we eu hysgol yn cefnogi eu gallu i addysgu'n effeithiol.
 - Dywedodd 37% o'r ymatebwyr eu bod yn gofyn i'w hawdurdod lleol ddadwystro gwefannau sydd eu hangen arnynt i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.
 - Dywedodd 37% o'r ymatebwyr eu bod yn 'symud ymlaen' os ydynt yn dod ar draws gwefan sydd wedi'i rhwystro trwy system hidlo'r we.
 - Mae 74% o'r ymatebwyr yn teimlo bod system hidlo'r we eu hysgol yn helpu i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein.
- Cafodd pob categori grŵp oedran ei adolygu gan y gweithgor i benderfynu a ddylai gwefannau yn y categori hwnnw gael eu rhwystro neu eu caniatáu.

Dylai ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion fabwysiadu'r categorïau a awgrymir yn seiliedig ar alluoedd eu dysgwyr yn hytrach na'u hoedrannau, fel sy'n briodol.

Disgwyliadau

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl:

- Bod awdurdodau lleol sy'n rheoli hidlo'r we ar ran eu hysgolion yn gweithredu'r safonau hyn.
- Bod ysgolion sydd wedi trefnu darpariaeth hidlo y tu allan i'r awdurdod yn gwirio bod eu system hidlo bresennol yn cydymffurfio â'r safonau hyn.
- Bod gweithwyr addysg proffesiynol yn mynd ati i addysgu ymddygiad ar-lein diogel, cyfrifol ac ystyriol yng nghyd-destun gweithgareddau addysgol priodol.

Gofynion ar gyfer offer Hwb

Mae'r gofynion ar gyfer offer Hwb i'w gweld ar y dudalen we ganlynol:

<https://hwb.gov.wales/what-are-the-prerequisites-for-hwb-tools>

Bydd y dudalen hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd wrth i offer ddatblygu.

Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru: Adolygiad Chwefror 2018

Allwedd:

Gwyrdd (✓) = Caniatáu
Coch (X) = Rhwystro

Noder bod teitlau'r categorïau a'r disgrifiadau yn seiliedig ar un o'r atebion a ddarparwyd i ysgolion.

Categori	Disgrifiad	Cyfnod Sylfaen a CA2	CA3	TGAU ac Ôl-16	Athrawon a staff nad ydynt yn addysgu
Hysbysebion / hysbysebu	Naidlenni hysbysebu sy'n gallu ymddangos ar wefannau.	X	X	X	X
Alcohol	Gwefannau sy'n hyrwyddo'r defnydd o alcohol neu wefannau cynhyrchwyr a dosbarthwyr.	X	✓	✓	✓
Y Celfyddydau	Gwefannau sy'n hyrwyddo a darparu gwybodaeth am y celfyddydau creadigol, gan gynnwys amgueddfeydd, sinemâu, theatrau, orielau a cherddoriaeth fyw. Mae lawrlwythiadau o'r cyfryngau wedi'u hepgor o'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Gwefannau arwerthu	Gwefannau lle rydych chi'n prynu a gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau gan ddefnyddio arwerthiannau ar-lein.	X	X	X	✓
Modurol / cerbydau	Mae'r categori hwn yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu, gwerthu, masnachu a gwasanaethu cerbydau. Mae grwpiau trafod wedi'u cynnwys hefyd.	✓	✓	✓	✓
Ymwybyddiaeth a chymorth	Gwefannau sy'n darparu ymwybyddiaeth a chymorth ar gyfer problemau gyda gamblo, alcohol, cyffuriau a phroblemau tebyg.	✓	✓	✓	✓
Masnachol	Gwefannau busnesau a sefydliadau masnachol sy'n darparu nwyddau a	✓	✓	✓	✓

	gwasanaethau am dâl. Mae'r categori hwn yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli ac adrodd ar fusnesau a sefydliadau masnachol.				
Cyfrifiadura	Mae gwefannau newyddion, gwybodaeth a gwerthu caledwedd, meddalwedd a'r rhyngwrdd wedi'u cynnwys yma, ynghyd â gwefannau cyrff TG proffesiynol. Nid yw gwefannau lawrlwytho meddalwedd wedi'u cynnwys yn y categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Bachu cymar	Mae'r categori hwn yn cyfeirio at wefannau bachu cymar, rhestri personol a gwefannau lle gallwch chi drafod rhamant a pherthnasoedd rhyngpersonol. Mae gwefannau a grëwyd gyda'r nod o sbarduno cyfarfyddiadau rhywiol yn cael eu cynnwys o dan y categori 'Pornograffi a chynnwys oedolion'.	X	X	X	X
Cyffuriau	Gwefannau sy'n gwerthu sylweddau anghyfreithlon, a reolir neu hamdden neu nwyddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Ar gyfer addysg cyffuriau, gweler y categorïau 'Iechyd a llesiant' ac 'Ymwybyddiaeth a chymorth'.	X	X	X	X
Addysg	Mae gwefannau meithrinfeidd, ysgolion, colegau a phrifysgolion wedi'u cynnwys yma, ynghyd ag adnoddau addysgol ar-lein, er bod angen cymryd gofal i osgoi llên-ladrad. Mae sefydliadau cymorth megis cyrff derbyn a chynghorau ymchwil wedi'u cynnwys yn y categori hwn hefyd.	✓	✓	✓	✓
Gemau addysgol	Gemau y gellir eu defnyddio at ddibenion addysgol i atgyfnerthu dysgu yn yr ystafell ddosbarth a/neu ddatblygu sgiliau. Yr ysgol fydd yn penderfynu beth sy'n cyfrif fel gêm addysgol.	✓	✓	✓	✓

Ffilm a theledu	Ffrydio trwyddedig gan ddarparwyr parchus e.e. BBC iPlayer, ITV Hub. Mae lawrlwythiadau o'r cyfryngau wedi'u hepgor o'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Cyllid, buddsoddi a bancio	Gwefannau cyllid a bancio personol a chorfforaethol a gwefannau cymharu prisiau ac adroddiadau ariannol. Mae gwefannau benthygiad diwrnod cyflog wedi'u hepgor o'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Bwyd a diod	Mae gwefannau sefydliadau a chynhyrchwyr bwyd a diod (gan gynnwys ffermydd), ryseitiau a materion coginio wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Gweler y categori ar wahân ar gyfer 'Alcohol'.	✓	✓	✓	✓
Gamblo	Gwefannau a meddalwedd sy'n caniatáu i chi gamblo ar-lein ac all-lein a/neu hyrwyddo sgiliau ac arferion gamblo. Mae gwefannau ymwybyddiaeth gamblo yn perthyn i'r categori 'Ymwybyddiaeth a chymorth'.	X	X	X	X
Llywodraeth a chymdeithasau cysylltiedig	Gwefannau llywodraeth ganolog a lleol, ynghyd â chyrff ac asiantaethau cysylltiedig. Nid yw'r lluoedd amddiffyn wedi'u cynnwys yn y categori hwn – gweler y categori 'Milwrol'.	✓	✓	✓	✓
Hacio a maleiswedd	Adnoddau y gellir eu defnyddio i gael mynediad at systemau heb awdurdod neu i gynghori sut i wneud hyn, ynghyd â gwefannau sy'n hyrwyddo meddalwedd faleisus. Mae deunydd hawlfraint a geir yn anghyfreithlon wedi'i gynnwys yma hefyd. Mae gwybodaeth am seiberddiogelwch wedi'i hepgor o'r categori hwn.	X	X	X	X

Casineb, gwahaniaethu, eithafiaeth a radicaleiddio	Gwefannau sy'n portreadu neu'n hyrwyddo safbwyntiau anghyfiawn, ymosodol, israddol neu sarhaus am unrhyw grŵp penodol o bobl ar sail hil, crefydd, rhyw, oedran, cenedligrwydd, anabledd corfforol, sefyllfa economaidd, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd neu ddewis arall o ran ffordd o fyw.	X	X	X	X
Iechyd a llesiant	Pob gwefan sy'n darparu gwybodaeth neu gyngor ar iechyd personol, ysbytai, clinigau, meddyginiaethau presgripsiwn cyfreithlon a gwasanaethau cysylltiedig.	✓	✓	✓	✓
Anghyfreithlon	Gwefannau sy'n gwerthu eitemau anghyfreithlon neu sy'n cynnwys cyfarwyddiadau, ryseitiau neu gyngor arnynt, ynghyd â gwefannau sy'n hyrwyddo gweithredoedd anghyfreithlon a gweithgarwch troseddol.	X	X	X	X
Gwefannau delwedd (wedi'u cymedroli)	Gwefannau sy'n lletya delweddau wedi'u cymedroli gyda hidlydd chwilio diogel.	✓	✓	✓	✓
Gwefannau delwedd (heb eu cymedroli)	Gwefannau sy'n lletya delweddau heb eu cymedroli.	X	X	X	X
Negeseua gwib	Cleientiaid a gwasanaethau negeseua gwib, ac unrhyw barthau sy'n ofynnol iddynt weithio'n llwyddiannus.	X	X	✓	✓
Ffordd o fyw a diwylliant	Gwefannau sy'n ymdrin â dewisiadau, materion a digwyddiadau bywyd megis rhianta, rhywioldeb, priodas a phrofedigaeth. Mae cynnwys rhywiol wedi'i hepgor ac wedi'i restru o dan 'Pornograffi a chynnwys oedolion'. Mae gwefannau bachu cymar wedi'u hepgor o'r categori hwn hefyd - gweler y categori 'Bachu cymar'.	✓	✓	✓	✓
Mapio	Gwasanaethau mapio daearyddol, gan gynnwys gwefannau cynllunio teithiau	✓	✓	✓	✓

	e.e. Google Maps.				
Milwrol	Mae gwefannau sy'n cynnwys gwybodaeth am sefydliadau milwrol swyddogol a'u gweithgareddau wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Mae sefydliadau anghyfreithlon a pharafilwrol wedi'u hepgor ac wedi'u cynnwys o dan y categori 'Anghyfreithlon'.	X	✓	✓	✓
Addysg gerddorol	Mae pob gwefan sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu cerddoriaeth yn perthyn i'r categori hon. Mae lawrlwythiadau anghyfreithlon wedi'u hepgor o'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Newyddion	Mae'r holl gyfryngau newyddion, gan gynnwys newyddion ar-lein a phapurau newydd, wedi'u rhestru o dan y categori hwn. Mae newyddion ffug a pharodiau wedi'u hepgor o'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Sarhaus a di-chwaeth	Mae'r categori hwn yn disgrifio gwefannau sy'n anaddas i ddysgwyr neu a allai wneud gwylwyr o bob oedran yn anghyfforddus e.e. hiwmor di-chwaeth, delweddau graffig, sylwadau sarhaus.	X	X	X	X
Fforymau trafod ar-lein	Gwefannau sy'n cynnig mynediad at grwpiau newyddion Usenet neu wasanaethau tebyg, neu unrhyw fforwm trafod arall nad yw'n perthyn i gategori arall.	X	✓	✓	✓
Gemau ar-lein	Pob gwefan gemau ar-lein, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwybodaeth (gan gynnwys cyngor cyffredinol neu wybodaeth am sut i dwyllo) am gemau ar-lein neu'n eu hyrwyddo. Mae ymddygiad caethiwus yn perthyn i'r categori	X	X	X	X

	'Ymwybyddiaeth a chymorth'. Mae gemau addysgol yn perthyn i'r categori 'Gemau addysgol'.				
Cymheiriad i gymheiriad (P2P)	Mae pob gwefan sy'n hwyluso rhannu ffeiliau trwy ddefnyddio meddalwedd P2P yn perthyn i'r categori hwn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, wefannau sy'n lletya meddalwedd P2P a gwefannau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am ffeiliau y gellir eu lawrlwytho â meddalwedd P2P.	X	X	X	X
Pornograffi a chynnwys oedolion	Gwefannau â chynnwys rhywiol cignoeth ar ffurf llun neu destun.	X	X	X	X
Eiddo ac eiddo tiriog	Pob gwefan sy'n darparu gwybodaeth neu hysbysebion ar gyfer gwerthu, rhentu, prynu ac adeiladu eiddo preifat neu fasnachol.	✓	✓	✓	✓
Osgoi trwy ddirprwy	Mae'r categori hwn yn cynnwys unrhyw wefan sy'n cynnig arweiniad neu feddalwedd i osgoi hidlydd y we neu i gael mynediad at rannau o'r we heb awdurdod.	X	X	X	X
Hamdden a diddordebau	Mae'r categori hwn yn cynnwys pob gweithgarwch neu ddiddordeb hamdden, ac eithrio chwaraeon.	✓	✓	✓	✓
Recriwtio / swyddi	Gwefannau chwilio neu wneud cais am swyddi, gan gynnwys asiantaethau cyflogaeth, ymgynghoriaethau recriwtio a chontractwyr. Mae gwefannau sy'n cynnig cyngor gyrfaedd, cyfweiliad a CV wedi'u cynnwys yn y categori hwn hefyd. Mae gwefannau recriwtio sy'n cynnwys swyddogaeth sgwrsio a/neu gyfryngau cymdeithasol wedi'u hepgor o'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓
Deunydd cyfeirio	Mae'r categori hwn yn cynnwys gwyddoniaduron, geiriaduron, thesawrysau ac atlasau ar-lein ac adnoddau gwybodaeth eraill sydd ar	✓	✓	✓	✓

	gael at ddibenion ymchwil.				
Crefydd a chredoau ysbrydol	Mae'r categori hwn yn cynnwys pob gwefan sy'n hyrwyddo neu'n darparu gwybodaeth am greddoau crefyddol ac ysbrydol neu sgeptigaeth tuag at y rhain. Mae credoau eithafol wedi'u rhestru o dan y categori 'Casineb, gwahaniaethu, eithafiaeth a radicaliaeth'.	✓	✓	✓	✓
Peiriannau chwilio	Mae'r categori hwn yn cynnwys peiriannau chwilio, peiriannau metachwilio a chyfeiriaduron y we, cyn belled â'u bod yn galluogi chwilio diogel.	✓	✓	✓	✓
Addysg ryw	Mae'r categori hwn ar gyfer gwefannau sy'n trafod rhyw a rhywioldeb mewn ffordd wybodus nad yw'n voyeuraid. Gall y gwefannau gynnwys gwybodaeth am atgenhedlu dynol a dulliau atal cenhedlu, cyngor ar atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ac ymataliad.	X	✓	✓	✓
Siopa / e-fasnach	Gwefannau sy'n cynnig nwyddau ar werth (boed hynny ar-lein neu all-lein) ac yn darparu cymariaethau rhwng nwyddau. Noder yr eithriadau yn achos gwefannau sy'n perthyn i gategoriâu eraill.	✓	✓	✓	✓
SMS a gwasanaethau ffôn symudol	Mae gwefannau ar gyfer creu ac anfon negeseuon testun SMS yn perthyn i'r categori hwn, ynghyd â gwefannau ar gyfer lawrlwytho tonau ffôn, gemau a fideos. Mae cwmnïau ffonau symudol wedi'u rhestru o dan 'Siopa'.	X	X	X	✓
Cyfryngau cymdeithasol	Mae gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu diffinio fel y rhai sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gynhyrchu proffiliau personol neu gynnwys personol a gweld a chysylltu â phroffiliau eraill.	X	✓	✓	✓

Lawrlwytho meddalwedd (newydd)	Pob gwefan sydd â'r prif nod o ganiatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho meddalwedd newydd, boed hynny am ddim neu'n fasnachol.	X	X	X	X
Diweddariadau meddalwedd	Parthau a ddefnyddir i lawrlwytho diweddariadau i feddalwedd bresennol e.e. diweddariadau Windows, diweddariadau wrthfeirysol.	✓	✓	✓	✓
Chwaraeon	Mae pob gwefan chwaraeon – boed yn wefan swyddogol, answyddogol, yn gysylltiedig â'r cyfryngau neu ddilynwyr y gamp – yn perthyn i'r categori hwn, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â gamblo.	✓	✓	✓	✓
Ysbiwedd / maleiswedd / meddalwedd wystlo	Gwefannau sy'n lletya meddalwedd sy'n ceisio cael gafael ar wybodaeth bersonol neu breifat heb yn wybod i'r defnyddiwr.	X	X	X	X
Cyfryngau i'w ffrydio neu lawrlwytho	Unrhyw wefan sydd â'r prif nod o ganiatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho cynnwys cyfryngau, boed wedi'i ffrydio neu beidio. Gweler y categori 'Ffilm a theledu' hefyd.	✓	✓	✓	✓
Tybaco ac e-sigaréts	Gwefannau sy'n hyrwyddo'r defnydd o dybaco neu wefannau cynhyrchwyr a dosbarthwyr. Mae'n cynnwys hefyd wefannau sy'n hyrwyddo'r defnydd o e-sigaréts ac anweddu.	X	✓	✓	✓
Cyfieithu	Mae gwefannau sy'n cyfieithu tudalen ar y we o un iaith i'r llall yn perthyn i'r categori hwn oherwydd y defnydd o ddirprwy. Nid yw geiriaduron ar-lein wedi'u cynnwys yn y categori hwn.	X	X	X	✓
Teithio	Pob gwefan sy'n gysylltiedig â theithio, gan gynnwys cwmnïau teithio, llyfrau teithio, gweithredwyr trafnidiaeth, gwestai a llety gwyliau i'w rhentu, cyngor teithio, rheoliadau teithio, gwybodaeth am amserlenni a llogi car.	✓	✓	✓	✓

Cyfathrebu unedig	Pob gwefan sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau cyfathrebu dros y rhyngrwyd, gan gynnwys ffôn a phrotocol llais dros y rhyngrwyd (VoIP).	X	X	✓	✓
Trais	Mae unrhyw wefan sy'n arddangos neu'n hyrwyddo cynnwys sy'n gysylltiedig â thrais yn perthyn i'r categori hwn. Mae gwefannau sy'n hyrwyddo unrhyw ddull o niweidio'ch hun yn perthyn i'r categori 'Hunan-niweidio'.	X	X	X	X
Arfau	Unrhyw wefan sy'n gwerthu arfau neu arfogaeth neu sy'n hyrwyddo'r defnydd o arfau. Mae hyn yn cynnwys gwefannau cynhyrchwyr arfau.	X	X	X	X
Gwe-sgwrs	Ystafelloedd sgwrsio ar y we. Noder efallai y bydd angen rhoi rhai gwasanaethau gyda gwe-sgwrs, megis Meic a Childline, ymysg eraill, ar y rhestr wen.	X	X	X	✓
Gwebost	Mae unrhyw wefannau sy'n cynnig gwasanaethau e-bost ar y we yn perthyn i'r categori hwn.	✓	✓	✓	✓